# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 1 Mehefin, 2017
# i'w hateb ar 6 Mehefin 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1.** **Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Beth yw asesiad y Prif Weinidog o effeithiau dim cytundeb fasnach â'r UE ar Gymru? OAQ(5)0635(FM)

**2.** **Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A oes gan Lywodraeth Cymru yr holl wybodaeth sydd ei hangen arni, bellach, i wneud penderfyniad ynghylch darparu'r cymorth ariannol y gwnaeth hyrwyddwyr Cylchffordd Cymru gais amdano? OAQ(5)0636(FM)

**3.** **Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gysylltiadau trafnidiaeth yn Ynys Môn? OAQ(5)0637(FM)**W**

**4.** **Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael ynghylch gweithfeydd Ford ym Mhen-y-bont ar Ogwr? OAQ(5)0638(FM)

**5.** **Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y gwasanaeth iechyd yng Nghymru? OAQ(5)0634(FM)

**6.** **Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu codi ymwybyddiaeth ynghylch dementia yng Nghymru? OAQ(5)0633(FM)

**7.** **Hannah Blythyn (Delyn):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynyddu nifer y tai fforddiadwy yng ngogledd-ddwyrain Cymru? OAQ(5)0632(FM)

**8.** **David Rees (Aberafan):** Pa drafodaethau diweddar y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch dyfodol y diwydiant dur yng Nghymru? OAQ(5)0625(FM)

**9.** **Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella gwasanaethau gofal sylfaenol yng ngogledd Cymru? OAQ(5)0639(FM)

**10. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr amseroedd aros dilynol ar gyfer gwasanaethau gofal llygaid i gleifion allanol yn ysbytai Cymru? OAQ(5)0628(FM)

**11. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi twristiaeth yn ne-ddwyrain Cymru? OAQ(5)0630(FM)

**12. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn darparu triniaeth ar gyfer pobl sydd â chanser y prostad? OAQ(5)0626(FM)

**13. Huw Irranca–Davies (Ogwr):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu a yw Llywodraeth Cymru wedi cael cadarnhad o ymrwymiad Llywodraeth y DU i fuddsoddi mewn trydaneiddio'r rheilffordd i Abertawe? OAQ(5)0623(FM)

**14. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i brosiectau sy'n dathlu hanes yn Sir Drefaldwyn? OAQ(5)0624(FM)

**15. Mark Reckless (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y flaenoriaeth gymharol y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i ariannu'r GIG o'i chymharu â gwariant arall y llywodraeth? OAQ(5)0629(FM)